**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd drwy Zoom ar 10 Chwefror 2022**

**Yn bresennol**
Julia Hughes (Cadeirydd)
Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd)
Gill Murgatroyd
Gareth Pritchard
Y Cyng. Owen Thomas, Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Michael Dixon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Matt Georgiou, Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc
Matt Powell, yn arsylwi (Cyngor Sir y Fflint)
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

1.1 Doedd dim ymddiheuriadau.

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 SESIWN HYFFORDDI – PRYD MAE COD YMDDYGIAD YR AELODAU'N GYMWYS?

6.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc sesiwn hyfforddi ar thema 'pryd mae cod ymddygiad yr aelodau'n gymwys'. Roedd copi o'r PowerPoint wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau.

6.2 Diolchodd yr Aelodau i'r Dirprwy Glerc a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

7 ADBORTH AM BRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

7.1 Rhoddwyd gwybodaeth yn y cyfarfod am bresenoldeb aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd.

7.2 Nodwyd bod y presenoldeb wedi gwella fymryn ar y cyfan. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau, anfonwyd llythyr at bob un o'r chwe awdurdod lleol ym mis Hydref 2021 i ofyn i'r swyddogion Gwasanaethau Democrataidd atgoffa eu cynghorwyr am bwysigrwydd mynychu cyfarfodydd yr ATA, gan dynnu sylw at yr aelodau yr oedd lefel eu presenoldeb yn is na 25%.

7.3 Roedd y llythyr hefyd yn amlinellu bwriad y Pwyllgor Safonau i osod 50% fel disgwyliad gofynnol o bresenoldeb o fis Mehefin 2022 ymlaen. Nodwyd na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Fodd bynnag, cytunwyd i anfon llythyr arall at y chwe awdurdod lleol, yn dilyn yr etholiad, i'w hatgoffa am y safon newydd hwn er mwyn i'r mater gael ei ystyried pan fydd cynghorwyr yn cael eu henwebu i fod yn aelodau o'r ATA.

7.4 Teimlid hefyd y dylai methu â mynychu unrhyw gyfarfod o fewn cyfnod o dri mis arwain at anfon llythyr rhybudd at y cynghorydd.

7.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) atgoffa awdurdodau lleol o'r bwriad i osod disgwyliad y bydd cynghorwyr yn mynychu o leiaf 50% o holl gyfarfodydd yr ATA;**

**(ii) atgyfnerthu'r adran ar bresenoldeb yn yr adroddiad blynyddol er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd ymroddiad a chyfranogiad cynghorwyr sy'n cael eu henwebu i fod yn aelodau o'r ATA.**

8 ARSYLWI AR GYFARFODYDD YR ATA

8.1 Roedd yr Aelodau Annibynnol wedi arsylwi ar wahanol gyfarfodydd yr ATA ac wedi cyflwyno eu hadborth; roedd y Cadeirydd wedi casglu'r holl adborth mewn un ddogfen i'w thrafod yn y cyfarfod.

8.2 Ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y ddogfen, cytunwyd i wneud newidiadau i ddiwyg y ddogfen ac yna i'w rhannu gyda'r Cadeirydd a holl aelodau'r ATA yn dilyn yr etholiadau awdurdod lleol. Awgrymwyd hefyd fod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn dechrau cwrdd o hyn ymlaen â Chadeiryddion yr ATA a'r Pwyllgorau er mwyn datblygu perthynas.

8.3 Bu'r Aelodau'n trafod y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid a fydd yn cael eu cyflwyno o fis Mehefin 2022 ymlaen, a nodwyd y bydd hwn yn waith a fydd yn mynd ymlaen dros yr ychydig fisoedd nesaf.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) diwygio'r ddogfen i adlewyrchu'r sylwadau cadarnhaol yn ogystal â'r adborth adeiladol a gafwyd;**

**(ii) bod y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chymeradwyo gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor;**

**(iii) rhannu'r adborth gydag aelodau'r ATA ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol.**

9 ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD

9.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r Aelodau fod cyfansoddiad yr ATA wedi cael ei adolygu gan weithgor o blith yr aelodau, a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

9.2 Roedd y cyfansoddiad diwygiedig a'r polisi ar gyfarfodydd mewn lleoliadau lluosog wedi cael ei gymeradwyo gan yr ATA yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2021.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 ÔL-DRAFODAETH AM GYNHADLEDD SAFONAU CYMRU GYFAN

10.1 Rhoddodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Glerc olwg gyffredinol ar y materion a drafodwyd yn y gynhadledd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.

10.2 Un o'r prif bynciau a drafodwyd oedd Adolygiad Penn (Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru), a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gefnogi canlyniadau'r Adolygiad.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a bod cofnod o'r gynhadledd yn cael ei ddosbarthu pan fydd ar gael.**

11 ADOLYGU'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

11.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar yr adolygiad o'r fframwaith safonau moesegol ac i geisio adborth gan yr Aelodau am yr argymhellion i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r adolygiad.

11.2 Nodwyd bod y gyfundrefn foesegol gyfredol wedi cael ei chreu gan mwyaf gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Er bod mân ddiweddariadau wedi cael eu gwneud i'r cod ers hynny, mae'r fframwaith cyffredinol wedi aros heb ei newid yn sylfaenol.

11.3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Richard Penn i adolygu'r fframwaith, ac mae'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, gydag ymrwymiad i ystyried y canfyddiadau a chynnal ymgynghoriad ynghylch eu rhoi ar waith.

11.4 Esboniodd y Dirprwy Glerc fod y canfyddiadau'n dod o fewn categorïau yn seiliedig ar a fyddai angen deddfwriaeth neu beidio i'w rhoi ar waith. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol ar rai argymhellion, mae angen deddfwriaeth eilaidd ar rai eraill, ac mae rhai ohonynt yn faterion o arfer y gellir eu rhoi ar waith os yw'r partïon perthnasol yn barod i wneud hynny.

11.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) y bydd y Swyddog Monitro yn edrych a oes modd sefydlu fforwm cenedlaethol o Aelodau Annibynnol; a**

**(ii) os oes angen i'r Pwyllgor gynnal gwrandawiad er mwyn ystyried ymddygiad aelodau'r awdurdod, y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor cyn gwrandawiad o'r fath; a**

**(iii) y bydd y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i nodi cefnogaeth gyffredinol y Pwyllgor i argymhellion yr adolygiad, tra'n mynegi'r pryder a fynegwyd yn y Gynhadledd Safonau ynghylch yr effaith ar swyddogion monitro os oes rhaid i gwynion gael eu hymchwilio gan Swyddogion Monitro i ddechrau cyn eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

12 COFLYFR OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - RHIF 25

12.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i ystyried rhifyn 25 o Goflyfr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

12.2 Rhoddodd yr Ombwdsmon grynodeb o'r cwynion yr ymchwilir iddynt bob chwarter yng Nghoflyfr y Cod Ymddygiad (y Coflyfr). Roedd rhifyn diweddaraf y Coflyfr yn tynnu sylw at y ffaith fod yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i dair cwyn yn ystod y cyfnod, roedd dwy wedi cael eu cyfeirio at y pwyllgorau safonau perthnasol, ac un wedi'i chyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi rhifyn 25 o'r Coflyfr, ac nad oes angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau.**

13 BLAENGYNLLUN GWAITH

13.1 Gofynnodd yr Aelodau i'r blaengynllun gwaith a gyflwynwyd gael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r busnes y bydd y Pwyllgor yn ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf.

13.2 **PENDERFYNWYD bod y blaengynllun gwaith a ddiwygiwyd yn cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd er mwyn i'r hyn sydd ynddo allu cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol.**

14 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R ATA

14.1 Roedd adroddiad blynyddol drafft wedi cael ei ddosbarthu i'r Aelodau roi sylwadau arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r ATA ym mis Mawrth 2022.

14.2 **PENDERFYNWYD bod yr adroddiad blynyddol drafft yn cael ei ddiwygio i gynnwys trafodaethau'r cyfarfod hwn, a bod y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cymeradwyo'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno i'r cyfarfod o'r ATA.**

15 MATERION BRYS

15.1 Nid oedd materion brys i'w hystyried.